**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

24 Ebrill 2023

Annwyl Peredur

Byrddau iechyd: cynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol

Yn ein cyfarfod ar 30 Mawrth 2023, trafododd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad diweddar ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Mae gennym rai pryderon parhaus am berfformiad ariannol byrddau iechyd, a hoffem ofyn ichi ystyried cynnwys craffu ariannol ar fyrddau iechyd yn eich rhaglen waith.

Rydym wedi ystyried sefyllfa ariannol byrddau iechyd yn ystod ein gwaith craffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24, gan gynnwys i ba raddau y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, h.y. eu dyletswyddau i reoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnod treigl o dair blynedd; ac i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig dros gyfnod treigl o dair blynedd a gymeradwyir gan Weinidogion. Yn ystod tystiolaeth lafar ar y gyllideb ddrafft ym mhob blwyddyn, rydym wedi trafod y sefyllfa â'r Gweinidogion, gan gynnwys sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd ac yn eu cefnogi.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24 yn awgrymu bod sefyllfa ariannol y byrddau iechyd wedi gwaethygu yn hytrach na gwella. Yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael i lywio ein gwaith craffu, mae byrddau iechyd, gyda'i gilydd, yn nodi diffyg yn ystod y flwyddyn hyd yma o £98.6 miliwn a diffyg diwedd blwyddyn a ragwelir o £159.9 miliwn ar gyfer 2022-23. Bryd hynny, roedd chwech o'r saith bwrdd iechyd yn rhagweld gorwariant diwedd blwyddyn. Mae

hyn yn arbennig o bryderus gan fod dyraniadau i fyrddau iechyd yn gyfran sylweddol o gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Yn ein hadroddiad, gwnaethom argymell:

> *"[D]ylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd pellach ynghylch sut bydd yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cyflawni cynaliadwyedd ariannol a'r cydbwysedd o fewn cylch cynllunio tymor canolig integredig 2023-24 i 2025-26. Dylai hyn gynnwys amserlenni clir o ran lle mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd pob bwrdd iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro."*

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Yn ei hymateb, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y "pwysau eithriadol" ar gyllid byrddau iechyd. Ni nododd amserlenni i bob bwrdd iechyd gyflawni cydbwysedd ariannol; yn hytrach, nododd na fyddai modd i'r "rhan fwyaf o fyrddau iechyd" gyflwyno cynllun tymor canolig integredig wedi'i fantoli ym mis Mawrth 2023. Ychwanegodd:

> *"Mae angen gwneud gwaith i gwmpasu a datblygu cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ac adfer sefydlogrwydd ariannol a'u rhoi ar waith. Gwneir hyn mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac uwch-swyddogion y GIG. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwnnw fynd rhagddo."*

Nid ydym wedi ein sicrhau eto y bydd hyn yn ddigonol o ystyried y dirywiad a welsom a'r pwysau parhaus ar ein gwasanaethau iechyd. Mae gennym bryderon hefyd ynghylch lefel y capasiti sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth sydd ei angen. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe baech yn ystyried cynnwys craffu ariannol ar fyrddau iechyd yn eich rhaglen waith, gan gynnwys a yw byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru yn ymdrechu digon i adennill cynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol byrddau iechyd, ac a oes capasiti digonol ar gael ar gyfer hyn.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.